**Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC**
Y Prif Weinidog

2 Tachwedd 2015


Annwyl Brif Weinidog

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17**

Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor ddydd Mercher 13 Ionawr 2016 i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

Disgwylir i'r sesiwn dystiolaeth bara awr, gan ddechrau am 11.00. Cynhelir y cyfarfod yn Ystafell Bwyllgora 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu papur dwyieithog i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft erbyn **dydd Mawrth 15 Rhagfyr**. Byddai'r Pwyllgor yn arbennig o ddiolchgar o gael gwybodaeth am y materion cyllidebol a amlygir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**

Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

**Atodiad**

# Cais gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Prif Weinidog ddarparu gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2016-17

## *Craffu ar y gyllideb ddrafft o safbwynt yr iaith Gymraeg*

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod dyraniadau cyllid penodol ar gyfer y Gymraeg yn y gyllideb ddrafft ar hyn o bryd yn dod o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau.

Fodd bynnag, gan mai chi sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi'r iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, hoffem eich gwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor i drafod cyllideb ddrafft 2016-17 yn y cyd-destun hwn.

Yn ogystal â chraffu ar y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft sydd â'r nod penodol o hyrwyddo'r iaith Gymraeg, mae'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith ehangach dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar yr iaith.

Fel y cyfryw, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael y wybodaeth ganlynol ar ffurf tystiolaeth ysgrifenedig.

## *Cyflwyno'r gyllideb*

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r dull o gyflwyno'r gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, ac wedi argymell y dylai'r gwaith barhau er mwyn sicrhau bod dyraniadau'r gyllideb yn cyd-fynd mewn ffordd fwy eglur fyth ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Fel y llynedd, hoffai'r Pwyllgor gael y llinellau gwariant unigol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, ar gyfer eich portffolio chi.

Dylem nodi ein bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi gofyn am wybodaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am ddarpariaeth yn y gyllideb i gefnogi'r broses o weithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol. Fodd bynnag, er mwyn hybu tryloywder, byddem hefyd yn croesawu'r wybodaeth hon er mwyn cael rhywfaint o gyd-destun o ran sut y mae cyllid i hybu'r Gymraeg wedi cael ei ddyrannu yn ei gyfanrwydd.

***Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu***

O ran Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth a ganlyn:

- manylion am y costau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn cysylltiad â'r Gymraeg a/neu unrhyw waith sy'n cael ei wneud i asesu costau o'r fath;
- a ellir cyflawni'r ymrwymiadau hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio a manylion am unrhyw feysydd lle mae fforddiadwyedd yn destun pryder; a
- gwybodaeth ynglŷn â sut y bwriedir monitro a gwerthuso'r graddau y llwyddwyd i gyflawni'r ymrwymiadau mewn cysylltiad â'r Gymraeg, a'r canlyniadau cysylltiedig, er mwyn dangos gwerth am arian.

***Polisïau allweddol***

Byddai'r Pwyllgor yn arbennig yn dymuno cael gwybodaeth am y canlynol:

- beth yw'r berthynas rhwng dyraniadau'r gyllideb ddrafft a'r broses o roi ar waith y strategaeth *Iaith Fyw:Iaith Byw* a'r ddogfen *Bwrw Mlaen* wedi'i diweddaru, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae'r dyraniadau ar gyfer 2016-17 yn cysylltu â'r strategaethau hynny o ran targedau, canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma a'r canlyniadau a fwriedir yn y dyfodol;
- pa asesiad yr ydych chi wedi'i gynnal o effaith ailflaenoriaethu cyllid o dan y ddogfen *Bwrw Mlaen*, gan gynnwys ar y meysydd hynny (fel cefnogaeth i ddysgwyr Cymraeg a dysgwyr sy'n oedolion) lle y cafodd lefel y cyllid ei leihau yn 2015-16;
- yn dilyn sesiwn y llynedd ar y gyllideb ddrafft, i ba raddau yr ydych yn gallu nodi faint o arian a ddefnyddir i gefnogi, hyrwyddo neu amddiffyn y Gymraeg ar draws portffolios pob Gweinidog (gan gynnwys mewn cyllidebau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg), ac a yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau tuag at allu darparu'r wybodaeth hon;

- sut mae'r broses barhaus o roi *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* ar waith wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys dyraniadau cyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a'r sail a ddefnyddir i benderfynu ar y rhain;
- beth yw'r berthynas rhwng dyraniadau'r gyllideb ddrafft a gweithrediad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae hyn yn cysylltu â thargedau, canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma a'r canlyniadau a fwriedir.

Hoffai'r Pwyllgor hefyd weld:

- manylion am gostau gweithredu'r polisïau hyn a / neu unrhyw waith sy'n cael ei wneud i asesu costau o'r fath;
- gwybodaeth ynglŷn â sut y bwriedir monitro a gwerthuso gweithrediad y polisi, a'r canlyniadau cysylltiedig, i ddangos gwerth am arian.

### *Asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg*

Fel a nodwyd yn ein llythyr atoch ar 29 Hydref 2014, ar ôl craffu ar gyllideb ddrafft 2015-16, mae'r angen i asesu'n well pa effaith y mae penderfyniadau cyllidebol yn ei chael ar y Gymraeg ar draws portffolios y Gweinidogion wedi bod yn thema barhaus yn ein gwaith craffu cyllidebol. Y llynedd, fe wnaethom fynegi siom ynghylch "y diffyg manylion yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol" yn hyn o beth, ac ailadrodd ein bod yn disgwyl i "Asesiadau Effaith Integredig Strategol yn y dyfodol adlewyrchu'n well y gwaith a wnaed ar draws adrannau i asesu effaith penderfyniadau cyllidebol ar y Gymraeg".

Yn eich ymateb inni ar 19 Tachwedd 2014, nodwyd y byddai asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a ddatblygwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod sefyllfa'r Gymraeg yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau cyllidebol, ac y byddai hynny, yn ei dro, yn eich cynorthwyo i nodi gwariant ar y Gymraeg mewn cyllidebau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith. Dywedwyd hefyd y byddech, wrth ddatblygu cynlluniau cyllidebau yn y dyfodol, yn edrych yn ofalus ar ffyrdd o wella rhagor ar y wybodaeth hon.

Hoffai'r Pwyllgor, felly, gael gwybodaeth am y canlynol:

- manylion ynghylch sut y cafodd dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2016-17 (ar draws portffolios y Gweinidogion) eu hasesu o ran eu heffaith ar y Gymraeg
- sut yr ydych wedi gwella'r asesiadau hyn a'r wybodaeth honers y llynedd;

- enghreifftiau penodol o sut y dylanwadodd unrhyw asesiadau o'r fath ar ddyraniadau ar draws portffolios y Gweinidogion;
- cadarnhad a gynhaliwyd yr asesiadau hyn ar gyfer dyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant, ac os na, pam ddim.

### *Gwariant ataliol*

Fel y llynedd, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn trafod gwariant ataliol fel rhan o'i waith o graffu ar gyllideb ddrafft 2016-17. Dyma'r diffiniad o wariant ataliol a fabwysiedir at y diben hwn:

> *...gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.*

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol:

- pa gyfran o gyllideb y Gymraeg a ddyrannwyd ar gyfer camau gwariant ataliol;
- manylion am bolisïau neu raglenni penodol sy'n berthnasol i'r Gymraeg y bwriedir iddynt fod yn ataliol; a
- sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.

### *Darparu ar gyfer deddfwriaeth*

Hoffai'r Pwyllgor hefyd weld:

- gwybodaeth am y graddau y mae unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig sydd wedi'i phasio, neu sydd wrthi'n cael ei phasio, neu y mae wedi'i chynllunio yn y rhaglen ddeddfwriaethol, yn debygol o gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y Gymraeg ym mlwyddyn ariannol 2016-17.
- gwybodaeth am effaith unrhyw ddeddfwriaeth y DU ar y Gymraeg.